YSTADEGAU, DOGFENNU

# Gwariant gros ymchwil a datblygu: 2022

Amcangyfrifon o gyfanswm y gwariant ar ymchwil a datblygu (Y&D) ar draws sectorau marchnad gwahanol gan wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr ar gyfer 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Awst 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Awst 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwariant-gros-ymchwil-datblygu-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Prif bwyntiau

## Nodiadau

## Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwariant-gros-ymchwil-datblygu-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Prif bwyntiau

- Amcangyfrifwyd bod cyfanswm o £1.6 biliwn wedi ei wario ar Y&D yn 2022 yng Nghymru (prisiau cyfredol).
- Roedd gwariant Y&D Cymru yn cynrychioli 2.3% o gyfanswm gwariant Y&D y DU.
- Roedd Y&D menter busnes yn cyfrif am 60.1% o’r cyfanswm Y&D yng Nghymru, gydag addysg uwch yn cyfrif am 36.8%, ac Y&D llywodraeth yn cyfrif am 2.8%.
- Mewn ardal fach fel Cymru, gall nifer fechan o brosiectau mawr sydd yn cychwyn neu’n gorffen ddylanwadu’n fawr ar lefel gwariant Y&D, sy'n golygu bod y gyfres amser yn gallu bod yn anwadal.

# Nodiadau

Mae'r datganiad hwn yn darparu amcangyfrifon o ymchwil a datblygu a gyflawnir yn y pedwar sector canlynol:

- ymchwil a datblygu mentrau busnes (BERD)
- ymchwil a datblygu addysg uwch (HERD)
- ymchwil a datblygu llywodraeth, gan gynnwys Ymchwil ac Arloesi'r DU (GovERD)
- ymchwil a datblygu sefydliadau di-elw preifat (PNPRD)

Gelwir data ymchwil a datblygu'r sectorau hyn ar y cyd yn wariant mewnwladol crynswth ar ymchwil a datblygu (GERD).

Yn y cyhoeddiad ystadegol hwn, mae Y&D a chysyniadau cysylltiedig yn dilyn safonau a gytunwyd yn rhyngwladol a ddiffinnir gan **Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)**, fel y'u cyhoeddwyd yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwariant-gros-ymchwil-datblygu-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Llawlyfr Frascati 2015.

Mae'r ffigyrau hyn yn rhoi'r amcangyfrif gorau ar hyn o bryd o ymchwil a datblygu ar lefel y DU, ond mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon sy'n is na lefel y DU a'r sector sy’n perfformio yr ymchwil a datblygu. Mae cyfansymiau y DU a ffigurau Y&D ar lefel sector wedi'u dynodi'n ystadegau swyddogol achrededig, tra bod gan weddill y ffigurau (gan gynnwys data Cymru) ddynodiad ystadegau swyddogol.

Mae gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sampl newydd ar gyfer ystadegau BERD yn 2022, sydd wedi cynyddu cyfanswm y data a dderbyniwyd, ac wedi sicrhau bod yr ystadegau BERD bellach yn adlewyrchu lefel yr Y&D a gyflawnir ar draws economi'r DU yn well. Felly, nid oes modd cymharu'r amcangyfrifon o 2022 yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol ac eithrio ar lefel y DU.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng **nghyhoeddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol**.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Emma Horncastle
E-bost: **ystadegau.economi@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwariant-gros-ymchwil-datblygu-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.